

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Ymestyn y Fframwaith Cofrestru Gofal Plant o fewn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010					
Manylion Cyswllt:		gofalplantachwarae@cymru.gsi.gov.uk			
Math o Raglen / Prosiect					
<input checked="" type="checkbox"/> Polisi	<input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen				
<input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth	<input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad				
<input type="checkbox"/> Grant	<input type="checkbox"/> Gwasanaethau				
<input type="checkbox"/> Newid busnes	<input type="checkbox"/> Contractau, tendrau				
<input type="checkbox"/> Seilwaith					
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf					
<input type="checkbox"/> TGCh					
<input type="checkbox"/> Arall (nodwch isod)					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?					
Os yw o dan £25,000, nid oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar y Gymraeg bob amser (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25k - £49k	£50 - £249K	£250K - £1m	Dros £1m	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg? Ddim yn berthnasol					
Pa mor hir y disgwyllir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
Mawrth 2015	Cyhoeddi dogfen ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r drefn gofrestru ar gyfer gofal plant yng Nghymru. Caiff o leiaf dau ddigwyddiad ymgynghori eu cynnal.				
Mehefin 2015	Cau'r ymgynghoriad.				
Tachwedd 2015	Cyhoeddiad gan y Gweinidog ynghylch y cyfyngiad oedran				

	uwch ar gyfer cofrestru gorfodol ar gyfer gofal plant.
01 Ebrill 2016	Dyddiad y daw'r newidiadau i'r drefn gofrestru i rym

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi?

Beth yw'r canlyniadau yr hoffech eu gweld / beth fydd yn cyfri fel 'llwyddiant'?

Ar hyn o bryd yng Nghymru, yn gyffredinol mae cofrestru gofal plant yn ofynnol pan fo darparwyr gofal plant yn darparu gofal ar gyfer plant hyd at 8 oed. Nodir y gofyniad hwn yn Adran 19 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ac mae'n cynnwys darparwyr gofal dydd a gwarchodwyr plant. Rhaid i bob darparwr gofal plant cofrestredig weithredu'n unol â rheoliadau perthnasol a safonau fel y nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Sicrheir y safon o ofal a fynir drwy arolygu a rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Y nod yw cynyddu'r cyfyngiad oedran ar gyfer gorfod cofrestru gofal plant – y cyfyngiad cyfredol yw gofal plant hyd at 8 oed – am y rhesymau canlynol:

- Mae'r drefn gyfredol o reoleiddio yng Nghymru yn golygu nad oes yna ffordd gyson o reoleiddio safon ac addasrwydd darpariaeth gofal plant ar gyfer plant 8 oed a throsodd. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.
- Mae Llywodraeth Cymru, yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, yn ymrwmo i gynnal adolygiad o reoleiddio ac arolygu yn y blynyddoedd cynnar. Yn yr Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar, a gyhoeddwyd yn 2014, argymhellwyd y dylai'r holl ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys gofal plant 8 oed a throsodd, gael ei chofrestru a'i harchwilio.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i sicrhau bod fframwaith cofrestru priodol ar waith yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd o ran priodoldeb a diogelwch y gofal a ddarperir i blant. Bydd hyn o fudd i blant a'u rhieni / gofalwyr, ond hefyd i'r darparwyr gofal eu hunain.
- Mae Cymru hefyd wedi ymrwmo i sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael ei gynnal mewn cysylltiad â phob math o waith polisi. Mae'r Confensiwn yn cynnwys sicrhau y gofelir am blant ac y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael cymorth gydag unrhyw anabledd a allai fod ganddynt. Rydym ni am sicrhau y cynhelir erthyglau'r Confensiwn nid yn unig ar gyfer plant bach, ond hefyd ar gyfer plant hŷn sy'n derbyn gofal. Drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy'n gofalu am blant 8 oed a throsodd gofrestru, y gobaith yw y gellir cynnal hawliau plant i safon uwch fyth.

Amcanion allweddol y newidiadau arfaethedig yw sicrhau'r canlynol:

- **Cymesuredd** – bod y gofal a ddarperir i blant yn cael ei reoleiddio mewn ffordd gymesur, gan roi ystyriaeth i anghenion ac oedran y plentyn
- **Safon** – bod gwasanaeth gofal o safon yn cael ei ddarparu i blant o bob oedran ar draws pob ystod o ddarpariaeth.
- **Diogelwch** – bod pob plentyn yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel

Y canlyniad y gobeithiwn ei weld yw cynnydd yn nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig yng Nghymru ar gyfer plant 0 i 12 oed.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi'u hystyried? a
Pa effeithiau fydd yn cael eu gweld os na chaiff y polisi ei weithredu?**

Dyma'r prif opsiynau polisi a archwiliwyd ac a ddatblygwyd:

- Beth ddylai'r cyfyngiad oedran fod ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofal plant gofrestru; hynny yw, pa oedran?
- A ddylid cael system wirfoddol neu orfodol o reoleiddio ar gyfer plant 8 oed a throsodd.

Pe na weithredir y polisi i gynyddu'r cyfyngiad oedran ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i gofrestru gofal plant, yr effeithiau fyddai:

- Ni fyddai yna ffordd gyson o reoleiddio safon ac addasrwydd y ddarpariaeth ofal ar gyfer plant wyth oed a throsodd.
- Byddai rhieni Cymru dan anfantais o'u cymharu â rhieni mewn mannau eraill o'r Deyrnas Unedig, lle mae systemau'n bodoli (boed yn wirfoddol neu'n orfodol) ar gyfer gofrestru darpariaeth ar gyfer plant hŷn gan alluogi rhieni i fanteisio ar y buddion lles a threthi sy'n helpu gyda chostau gofal plant cofrestredig.
- Ni fyddai argymhellion yr Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar (Adolygiad Graham), a argymhellodd y dylid gofrestru pob darpariaeth gofal plant yng Nghymru, yn cael eu gweithredu.

**A yw'r rhaglen yn arddangos cyswllt clir gyda strategaeth Gymraeg
Llywodraeth Cymru, sef iaith fyw: iaith byw?**

Ar hyn o bryd, mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru'n nodi iaith lleoliad cofrestredig mewn adroddiadau. Bydd y newidiadau'n cynyddu gallu rhieni/gofalwyr i gael mynediad i wybodaeth am y Gymraeg, gan y bydd gwybodaeth ynghylch yr iaith y mae lleoliad cofrestredig yn gweithredu ynddi ar gael drwy wefan yr Arolygiaeth.

Bydd y newidiadau'n cynyddu nifer y lleoliadau gofal plant y bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae'r safonau hyn yn cynnwys canlyniadau sy'n gysylltiedig â chydarddoldeb a chynhwysiant, a'r angen i roi sylw i'r iaith Gymraeg.

Hefyd, darparwyd pob dogfen ymgynghori'n ddwyieithog, a bydd yr holl ddogfennaeth drwy gydol y broses yn ddwyieithog.

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol ac andwyol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u
pennu yn ystod y cyfnod cynllunio cychwynnol**

Hynny yw, siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau ar gael yn Gymraeg ac ati

Cadarnhaol:

- Bydd yn haws i rieni gael gwybod am iaith y ddarpariaeth o fewn lleoliadau sy'n darparu gofal plant i blant 8 oed a throsodd.
- Bydd y newidiadau'n cynyddu nifer y lleoliadau gofal plant y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae'r safonau hyn yn cynnwys canlyniadau sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb a chynhwysiant, a'r angen i roi sylw i'r iaith Gymraeg.

Negyddol:

- Gallai'r baich rheoleiddiol mwy a fydd ar ddarparwyr arwain at broblemau cynaliadwyedd mewn sector sydd eisoes yn fregus yn y maes. Mae hyn yn arbennig o wir am ardaloedd gwledig - a gallai fod goblygiadau i hyn o ran darpariaeth Gymraeg.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A ymdrinnir ag anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg? I ba raddau y mae grwpiau buddiant y Gymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Y rhanddeiliaid yr effeithir arnynt gan y newid hwn fydd:

- Rhieni
- Plant
- Gweithwyr yn y Sector Gofal Plant
- AGGCC
- Awdurdodau Lleol
- Darparwyr Gofal Plant Cymru
- AWARE
- Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

Rydym wedi croesawu barn rhanddeiliaid ym maes y Gymraeg yn ystod ein hymgyngoriad, a byddwn yn ystyried eu hymatebion yn ystod y broses werthuso. Rydym wedi ymgysylltu â'r Mudiad Meithrin (prif ddarparwr gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol) wrth ddatblygu'r polisi hwn.

Lle na chwblhawyd asesiad, neu lle na bennwyd effeithiau, rhowch gofnod llawn at ddibenion cadw cofnodion.

Pa gamau / gwaith pellach sydd wedi'u pennu ar y cam cynllunio cychwynnol?

E.e. gofynion data, yr angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol gyda grwpiau Cymraeg, llunio rhestr o rhanddeiliaid neu restr ar gyfer ymgynghori, angen cysylltu ag Uned y Gymraeg i gael cyngor?

- Ymgysylltu parhaus gyda grwpiau Cymraeg, megis y Mudiad Meithrin
- Digwyddiadau ymgynghori dwyieithog ledled Cymru
- Cyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

CAM 2: PENNU AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Rhowch grynodeb o'r asesiad manwl o'r effaith a gynhaliwyd, ynghyd â'r sgoriau a nodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:	
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd rhieni'n meddu ar fwy o wybodaeth am y ddarpariaeth ieithyddol o fewn y lleoliadau sy'n darparu gofal plant i blant dros wyth oed. • Bydd y newidiadau'n arwain at gynydd yn nifer y lleoliadau gofal plant y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae'r safonau hyn yn cynnwys canlyniadau sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb a chynhwysiant, a'r angen i roi sylw i'r iaith Gymraeg. 	
Effeithiau andwyol:	
<ul style="list-style-type: none"> • Gallai'r baich rheoleiddiol ychwanegol a fydd ar ddarparwyr arwain at broblemau cynaliadwyedd mewn sector sydd eisoes yn fregus yn hyn o beth. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd gwledig – a gallai hyn fod â goblygiadau i ddarpariaeth iaith Gymraeg. 	
Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o Gymraeg mewn bywyd beunyddiol, cynnydd yn y defnydd o Gymraeg yn y gwaith?	
<ul style="list-style-type: none"> • Annog cwblhau holiadur yr ymgynghoriad yn Gymraeg. • Sicrhau bod digwyddiadau rhanddeiliaid yn ddwyieithog. • Annog sgiliau Cymraeg yn y gweithle. • Cefnogi'r Gymraeg drwy ddarparu cyfleoedd o fewn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol am wasanaethau i sicrhau darpariaeth Gymraeg. 	
Tystiolaeth / data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffeg, wrth ystyried effeithiau:	
Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn dod o dair ffynhonnell:	
<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiadau AGGCC ar y ddarpariaeth gofal plant sydd wedi'i harchwilio hyd yn hyn; • Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant. Mae'r aseidiadau hyn yn helpu i roi gwybod i Awdurdodau Lleol am ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant yn eu hardaloedd ac maent yn cynnwys gwybodaeth ynghylch digonolrwydd y ddarpariaeth Gymraeg. • Consortiwm gofal plant CWLWM, sy'n cynnwys 5 corff gofal a chwarae plant yng Nghymru (Mudiad Meithrin, PACEY, NDNA Cymru, Clybiau Plant Cymru, Cymdeithas darparwyr Cyn-ysgol Cymru) 	
Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar yr iaith Gymraeg os eir ymlaen â'r polisi hwn yn seiliedig ar yr asesiad effaith / asesiad o'r risg?	Cadarnhaol: <input checked="" type="checkbox"/> Andwyol: <input type="checkbox"/> Niwtral: <input type="checkbox"/> Ni wyddir: <input type="checkbox"/>
Penderfyniad ar ôl yr asesiad o'r effaith	1. Dim newid mawr <input checked="" type="checkbox"/> 2. Addasu'r polisi i wella'r effeithiau <input type="checkbox"/> 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru <input type="checkbox"/>

4. Stopio a dileu'r polisi

Os atebwyd 2, 3, neu 4 uchod – yna atebwch y canlynol:

Sut fyddwch chi'n mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg? Nodwch fanylion mesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen i leihau effeithiau andwyol a chynyddu canlyniadau cadarnhaol:

Os yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw'ch cynlluniau? Pa gwestiynau ydych chi'n dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Fe gyflawnwn ymarfer ymgynghori 12 wythnos o hyd, gan gynnal digwyddiadau i randdeiliaid mewn lleoliadau strategol ac ar lefel leol ledled Cymru.

Yn y ddogfen ymgynghori ynghylch y newidiadau i gofrestru gofal plant, fe nodwn fod cynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru ar draws pob maes polisi.

Os caiff y cyfyngiad oedran ar gyfer ei gwneud yn ofynnol cofrestru gofal plant ei gynyddu, byddai mwy o leoliadau'n gorfod cofrestru a bod yn destun archwiliadau. Dylai hyn ei gwneud yn haws i rieni gael gwybod ym mha iaith y mae lleoliad yn gweithredu ac, felly, gallu gwneud penderfyniad am ofal eu plant ar sail mwy o wybodaeth. Gofynnir i randdeiliaid a ydyn nhw o'r farn y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith – negyddol neu gadarnhaol – ar y defnydd o'r iaith Gymraeg.

CAM 3: AR ÔL YMGYNGHORI A CHAN BARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion iaith Gymraeg a godwyd?

Ni chodwyd unrhyw faterion penodol am y Gymraeg yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, pwysleisiwyd materion mwy cyffredinol am gynaliadwyedd. O ystyried yr effaith y gallai'r rhain ei chael ar bob darparwr, yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg, rydym wedi ceisio sicrhau bod unrhyw ofynion ychwanegol ar ddarparwyr yn gymesur ac yn ystyried y farn a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

Sut fyddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Bydd y polisi'n cynyddu nifer y o leoliadau gofal plant sy'n cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Mae'r safonau hyn yn cynnwys canlyniadau sy'n gysylltiedig â chydaddoldeb a chynhwysiant, a'r angen i roi sylw i'r iaith Gymraeg. Bydd Data gan AGGCC ar niferau'r lleoliadau cofrestredig yn rhoi gwybod inni am effeithiau parhaus y polisi ar y Gymraeg. Gobeithiwn weld effaith gadarnhaol o ganlyniad.

Amlinellwch sut y byddwch yn parhau i ddysgu am effeithiau o ran monitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Fel y nodir uchod, a thrwy ganlyniadau Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant gan Awdurdodau Lleol. Cynhelir yr asesiad nesaf yn 2017.

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau gwerthusiadau parhaus, effeithiau sy'n dechrau dod i'r amlwg